OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1000 (Cy.105) (C.42)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2013

*Gwnaed - - - - 24 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 100 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 26 Ebrill 2013**

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2013 i rym yw 26 Ebrill 2013, i'r graddau y maent yn ymwneud â gosod y Cod Trefniadaeth Ysgolion—

(a) adran 38 (cod trefniadaeth ysgolion);

(b) adran 39 (llunio a chymeradwyo cod trefniadaeth ysgolion);

(c) adran 97 (gorchmynion a rheoliadau); a

(d) adran 98 (dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio).

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Mai 2013**

**3.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2013 i rym yw 4 Mai 2013, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adran 97 (gorchmynion a rheoliadau); a

(b) adran 98 (dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio).

(**1**) 2013 dccc 1.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

24 Ebrill 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym adrannau 38, 39, 97 a 98 o Ddeddf 2013 ar 26 Ebrill 2013 i'r graddau y maent yn caniatáu ar gyfer gosod a llunio Cod Trefniadaeth Ysgolion drafft. Bydd adrannau 97 a 98 o Ddeddf 2013 yn cael eu dwyn i rym yn llawn ar 4 Mai 2013.